

Mai yw hi—y
mae haf!

WILIA



RHIF 445 MAI 2022
50C

PAPUR MISOL
CYMRAEG ABERTAWE

CASGLU I FFOADURIAID WCRAIN

Pan dorrodd y newyddion ofnadwy am ymosodiad Rwsia ar Wcráin a phan welsodd disgyblion Ysgol Gwyr yr holl ffoaduriaid a'r dioddefaint a oedd yn eu hwynebu, fel ysgol roeddent yn awyddus iawn i wneud beth bynnag posib er mwyn eu helpu. Oherwydd hyn, cydweithiodd yr ysgol gyda Chwnselaeth Rwmania yng Nghymru er mwyn casglu eitemau ar gyfer ffoaduriaid.

O fewn cyfnod byr iawn, casglwyd degau o filoedd o eitemau gwahanol, yn amrywio o esgidiau i deganau plant i nwyddau hylendid personol, diolch i



NOSON LAWN YN NEUADD 'NEWYDD' TY TAWE

Cynhaliwyd noson wych yng nghwmni Georgia Ruth a Gareth Bonello yn ddiweddar yn y neuadd, braf oedd gweld yr ystafell yn llawn.

Cawsom gyfle hefyd i glywed y system sain newydd ar waith, a diolch i Tomos a chriw y Fenter ar ennill grant gwerth £9,000 er mwyn prynu'r system sain a goleuadau newydd ar gyfer yr ystafell hon.

A dyna gwblhau'r gwaith adnewyddu i'r Neuadd yn dilyn cryn waith adeiladu ac addurno, am y tro.

Nosweithiau cerddorol / gigs

Dyma'r rhestr o'r nosweithiau sydd wedi'u trefnu dros yr wythnosau nesaf: [Menter Iaith Abertawe event tickets from TicketSource](#). (fe welwch gip ar ambell noson nad ydynt wedi eu cyhoeddi'n eang eto!)

I ddiolch am eich cefnogaeth, cewch ddefnyddio'r cod gostyngiad 20% "CLWBCEFNNOGWYR22" ar wefan TicketSource wrth brynu'r tocyn. £6 yw'r tocyn drutaf, felly bargeinion di-ri ar nosweithiau difyr i'r Cardis mwyaf yn ein plith!

Os hoffech flas ar draciau yr artistiaid, yna ewch i fwrw golwg ar y rhestr chwarae o bopeth sydd ar y gorwel fan hyn: [Gigs Tŷ Tawe - YouTube](#)

garedigrwydd cymuned Ysgol Gyfun Gŵyr. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd diwrnod gwsg anffurfiol lle gofynnwyd i ddisgyblion a staff i wisgo glas a melyn, sef lliwiau baner Wcráin. Llwyddwyd i godi dros £2,600 ar gyfer ffoaduriaid Wcráin a rhoddwyd yr arian i apel y DEC. Diolch o waelod calon i bawb am eu haelioni.

Y clasuron i bawb— Adran Ieithoedd Rhyngwladol Gwyr

Mae'r Clasuron yn adennill eu lle, diolch i Bennaeth yr Adran Ieithoedd Rhyngwladol, Mrs Janette Davies, a'r dysgwyr sydd yn astudio Lladin am eu cyfraniad at adnodd fideo cenedlaethol Classics for All. Braint yw gallu tynnu sylw at weithgarwch yr ydym fel Ysgol wedi manteisio'n fawr ohono.



Llongyfarchiadau i fechgyn Bl.9 Ysgol Gwyrar gyrraedd rownd terfynol Cwpan Cymru. Gŵyr 21 - Garth Olwg 23! Treuliodd ddisgyblion Bl.7 i 9 brynhawn cyffrous yn Stadiwm y Princepaliti ar ddechrau'r tymor hwn yn eu cefnogi.



TY TAWE— NOSON WERIN YN ÔL

Dychwelodd y sesiwn werin i'w ffurf arferol ers mis Chwefror a braf yw clywed y nodau yn hedfan eto ar ail nos Wener y mis. Dewch draw ar Fai y 13eg ar gyfer y Sesiwn nesaf.



ANNOG RHAI IFANC I BLEIDLEISIO

Yn sgîl y newid diweddar yn y gyfraith yng Nghymru, cafodd yr ysgol ei dewis i fod yn rhan o ymgyrch "Prosiect Pleidleisio 16+" Cyngor Abertawe. Pwrpas yr ymgyrch oedd cynyddu ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r broses ddemocrataidd ar lefel sirol, cenedlaethol a Phrydeinig, gyda'r nod o annog pobl ifanc 14 oed ac hŷn i gofrestru i bleidleisio mewn etholiadau yng Nghymru. Er mwyn gwneud hyn, bu criw o ddysgwyr Gŵyr a Bryntawe yn cyd-weithio gydag elusen "Swansea MAD" er mwyn creu fideo dwyieithog yn esbonio'r broses o bleidleisio am y tro cyntaf. Cawsant brofiad gwych wrth lunio stori fwrdd a sgrïpt, yn ogystal â ffilmio gan ddefnydd sgrîn werdd. Lanswyd y fideo terfynol ar Ebrill 6 a gellir gweld y fideo hwnnw drwy fynd i www.swanseamad.com/vote

Caffi Bore Sadwrn

Cofiwch alw am banded a sgwrs - pob bore Sadwrn rhwng 10-12! Diolch i'r gwirfoddolwyr sydd yn drîw i'r rota er mwyn darparu diod a thestun sgwrs i'r criw. Yr un yw'r diolch i wirfoddolwyr y siop, yn benodol ar ddyddiau Sadwrn. Dros yr wythnosau nesaf, efallai y gwelwch ambell wyneb newydd y tu ol i'r til mysg y gwirfoddolwyr wrth i ni a'r Fenter gyflogi ambell aelod o staff newydd rhan amser.



TY TAWE, 10YB - 12YH
BOB BORE SADWRN

CAFFI BORE SADWRN

Mwynho!r Gymroeg

DEWCH DRAW AM SGWRS A PHARED!
CROESO I DDYSGWYR A SIARADWYR RHUGLI

SPEAK WELSH IN AN INFORMAL SETTING. SESSIONS FREE OF CHARGE. COME ALONG FOR A CHAT AND A CUPPA!

Dathlu Cymreictod

gan Rob Evans

does dim gobaith i'r eglwys erbyn hyn. Mae'n siŵr bod yna bobl yn yr ardal sydd yn ei chofio'n cynnal canolbwynt i'r pentref. Mae hen eglwysi a chapeli dros y wlad yn dioddef yr un ffawd.

mhen nad ydym yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn ddigon. Mae'r Albanwyr yn cael dathliad mawr ar noson Robbie Burns, beth am i ni agor ein heglwysi neu gapeli i ni gael noson o ganu ac adloniant, efo luni-aeth ysgafn i ddilyn. Nid dim ond i'n heglwys ni ond i bawb yn y ddinas, cael cynrychiolaeth o bob eglwys, capel, cymdeithas Gymraeg, y papur bro, y dysgwyr, pawb sydd yn siarad Cymraeg. Cyfle gwych i ni sylwed-doli pa mor gryf yw'r iaith o'n cwmpas ni, ac i agor y drws i'r rhai sydd heb dorri mewn i'r gymuned Gymraeg.

Bydden ni'n creu taflen i roi i bawb i'w hysbysu am y pethau sydd yn mynd ymlaen yn y ddinas trwy gyfrwng yr iaith a chynnwys gwahoddiad i bawb i ymuno â nhw. Bydden ni'n casglu manylion cyswllt pawb sydd yna a gwneud yn siŵr bod ni'n cadw mewn cysylltiad â nhw am bethau sydd yn mynd ymlaen.

Gobeithio bydden ni'n gallu cynnal y dathliad yma yn rhan o fywyd yr ardal a phob blwyddyn bydden ni'n denu mwy i'n cylch. Bydd hyn yn bwysig i'r dysgwyr yn ein hardal hefyd. Mae llawer yn dysgu bob blwyddyn ond yn cael trafferth i gyfarfod pobl Cymraeg, dyma ffordd wych i dynnu nhw i mewn.

Y nod yw cryfhau pob mudiad yn yr ardal. Gyda'n gilydd bydden ni'n sicr o lwyddo.

Wrth wneud dim byd bydd ein byd Cymraeg yn crebachu a diflannu, dim ond targed yw'r filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Ein cyfri-foldeb ni yw gwneud y gwahaniaeth!



Ar yr 2il o Ebrill roedd Cymdeithas Edward Llwyd yn cerdded yn ardal Silian ger Llambod ond dw i ddim yn mynd i ysgrifennu am y daith y tro yma ond am Eglwys Sant Silian. Ar ôl cerdded y brynau roedden ni wedi cyrraedd y pentref a dyna le'r oedd yr eglwys yn sefyll yn gadarn o'n blaenau, mynwent daclus o'i chwmpas. Wrth edrych o'r tu allan doedd dim byd am-lwg i ddweud bod yr eglwys wedi bod ar gau ers 2017.

Mae tystiolaeth bod eglwys wedi bod yn y fan yma ers 1284 ond mae'r byd wedi newid a

Mae ein heglwys yn Abertawe yn cynnal gwasanaeth Gymraeg bob yn ail ddydd Sul felly dyna le ô'n i'r bore 'ma. Ar ôl trafferthion Cofid mae ein nifer wedi gostwng ac ar y ffordd adref roeddwn i'n trio meddwl faint o aelodau newydd dyn ni wedi cael ers i mi ymuno tua wyth mlynedd yn ôl. Yr ateb oedd - dim! Ac mae pawb yn henciddio, hyn yn oed fi!

Felly sut i gael gwaed newydd? Cwestiwn sydd yn poeni llawer ohonom ni.

Wel ces i ryw fath o syniad pan o'n i'n paratoi'r Wennol ar gyfer mis Ebrill, roeddwn i wedi ysgrifennu erthygl am ein nawddsant i fynd ar y dudalen flaen. Mi ddoth y syniad i'm

NEILLTUO FIONA GANNON

Cafodd Dr Fiona Gannon ei neilltuo yn arweinydd newydd Capel y Nant, Clydach, ddydd Sul 24 Ebrill. Mae hi'n dilyn Robat Powell.

Cafodd gwasanaeth neilltuo ei drefnu yng ngofal y Parch Dewi Myrddon Hughes a Robat Powell.

Cafwyd eitemau cerddorol gan Olwen Linern-Smyth, chwaer Fiona, gan Bill ei gŵr a gan Llywelyn ei mab, gyda Jonah Eccott yn cyfeilio.

Mae Fiona'n ferch i'r diweddar barchedig Kenneth Lintern.



CHWARAEON A DEMENTIA a materion eraill

Llun: John Charles, fu'n dioddef o ddementia

Mae BARN mis Ebrill wedi ymddangos, ac ar werth yn Siop Ty Tawe. Mae llawer o sôn am Abertawe yn y rhifyn hwn.

Mae'r Dr Don Williams o Abertawe'n trafod problem dementia ymysg pêl-droedwyr. Mae Dr Williams yn un o arloeswyr astudio'r clefyd hwn ymysg chwaraewyr y gamp, a chyhoeddodd astudiaeth yn 2017, ar ôl arwain ymchwil fanwl i'r pwnc. Mae Dr Williams yn nodi sut mae'r ymennydd yn debyg i uwd sigledig o fewn y pen, a gall benio'r bêl yn gyson arwain at ddementia. Ymysg chwaraewyr Cymru



a ddiodeffodd o hyd roedd John Charles a Trevor Ford.

CLWB WCRANIAID

Yna mae Catrin Evans yn sôn am Glwb Wrceiniaid Treforys, yng nghyswllt y dioddef enbyd a welir yn Wcraïn heddiw. Mae'n sôn am brofiadau rhai a fyddai'n mynychu'r clwb cyn iddo gael ei dynnu i lawr.

GWINOEDD
ABERTAWÉ

Gwahanol yw sylw Shôn Williams, sydd â cholofn win yn Barn. Ymwelodd y tro yma â siop win ND John yn yr Uplands, a chael ei foddhau'n fawr wrth chwilio'r silffoedd gwin.

Mae'n canmol Chennin Blanc Milton 'Te Arai' o Seland Newydd 2017 (£20) ond yn fwyaf arbennig D'Arenberg 'Derelict Vineyard' Grenache 2010 er ei fod yn amheus o

winoedd mewn poteli â chaead sgiw.

Y fargen orau oedd Li'Veli 'Askos' Susmaniello 2019, or Eidal am £10. Bargen lwyr, meddai. Ond y gwin gorau efallai oedd gwin Pieropan 'Calvarinho' 2016 (£20), y Soave ifanc gorau a flasodd erioed.

MARW DELYTH REES

Bu farw Delyth Rees, gwraig y Parch Ivor Rees, ar ôl rhai misoedd o salwch. Roedd yn adnabyddus mewn sawl cylch yn Abertawe, ar ôl dod i ymddeol yma gyda'i gwr yn 1996.

Un o Faglan oedd hi, ac ysgrifennodd yn gynnes am ei magwraeth yno, gan ddisgrifio'i cynhesrwydd ei theulu, y plant niferus y byddai'n mwynhau profiadau bywyd gyda nhw, yn crwydro'r bryniau a'r morfa.

Daeth Delyth yn brif ferch Ysgol Ramadeg Dyffryn, a mynd wedyn i astudio Saesneg a Ffrangeg, gydag ysgoloriaeth, ym mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Ar ôl graddio galwyd hi'n ôl gan ei hysgol i ddysgu yno.

Roedd hi eisoes wedi cwrdd ag Ivor cyn dyddiau'r Brifysgol, ac wedi Cynhadledd Genhadol y Barry, penderfyn-



wyd priodi a gwnaed hynny ym Mhort Talbot yn 1962.

Bu'n dysgu tan enedigaeth eu merth Lythan, a symud i Clapham yn 1967, lle y ganwyd Dafydd. Bu wedyn yn dysgu Ffrangeg yn Surrey, Trefansel a Cefn Hengoed, ac yna symudwyd i Rochdale lle y bu'n dysgu deillion

yn ogystal â dysgu mewn ysgolion cyfun.

Ymddeolodd yn gynnar yn 1993, ac ymroi i fod yn wraig gweinidog. Yn 1996 ymddeolodd i Abertawe, a dod yn aelod o gapel Bethel United Reform, ac yna'r Uniting Church yn Sgeti. Gwasanaethodd yn frwd yn ngweithgareddau cymdeithasau'r eglwys ac roedd yn gefnogwr brwd i'r mudiad ecwmenaidd.

Yn arbennig iawn, dysgodd y Gymraeg a phasio Lefel A, a mynychu dosbarthiadau llenyddiaeth Gymraeg, yn ogystal â mynychu nifer helaeth o gymdeithasau eraill, gan fwynhau darlithiau a chyngherddau a theithio.

Bydd colled ar ôl Delyth ymysg ei theulu a sawl cymuned yn Abertawe.

BEV LENNON YN NHREFORYS

Roedd yn bleser estyn croeso i Bev Lennon, ein gwes-tai yng nghyfarfod mis Ebrill o 'r Gymdeithas. Cawsom glywed am ei dyddiau cynnar yn Llundain. Ganwyd hi yno i rieni oedd wedi ymfudo i Brydain o Jamaica. Soniodd am dyfu i fyny yn niwylliant lliwgar a cherddorol y Caribi yn Brixton ac am ei hoff fwydydd. Symudodd i Gaerdydd yn dilyn marwolaeth ei mam a thrwy hynny dod yn ymwybodol o'r diwylliant Cymreig oedd yn newydd iddi hi.

Penderfynnodd ddysgu'r Gymraeg er mwyn ymu-no yn, â gwerthfawrogi, ei darganfyddiad. Astudiodd y Gymraeg gan sefyll arholiadau at Lefel A ac aeth ymlaen i dddilyn cwrs hyfforddi gan ddod yn athrawes y Gymraeg fel ail iaith yn ysgolion uwchradd Caerdydd a'r Fro. Mae Bev yn dipyn o ddywardwr a thrwy ei dawn cawsom darlun o ymateb y disgyblion wrth iddynt sylweddoli bod yr athrawes dywyll ei lliw yn siarad Cymraeg ac yno i ddysgu'r Gymraeg iddyn nhw!

Yn wir, roedd hiwmor Bev yn amlwg wrth iddi ymateb i Robat Powell wrth iddynt sgwrsio o flaen yr aelodau. Serch hynny, soniodd Bev am adegau tywyll



yn ei bywyd ac am yr hiliaeth a ddiroddedodd ar adegau. Cafodd ei mab, David, addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a chawsom y pleser o weld e'n cyflwyno ar y sgrin un o' i ganeuon "Yr Enfys Unlliw" trwy You Tube, ynghyd â Bev yn dyn-ward Maggie Thatcher a chymeriadau eraill.

Dangoswyd hefyd ychydig o daith Bev i Jamaica gyda'r cogydd Dudley Newbury. Noson lwyddiannus dros ben gyda'n diolch yn arbennig i Robat am yr holi ac i Matthew am y gwaith technegol.

Mis nesaf Cleif Harpwood yw'n gwes-tai ond fe fydd e'n dod nid fel brif lais "Edward H" ond fel hanesydd sydd a ddirodded arbennig yn ardal Margam. Cynhelir y cyfarfod yn Ffestri'r Tabernacl, Treforys, nos Iau Mai 19 am 7.00.y.h. Yn y cyfamser fe fydd 22 o'r aelodau yn ymweld â Chaernarfon a Sir Fôn ar ein taith estynedig.

CARWYN JONES YN Y CYLCH CINIO

Gwestai Cinio Gŵyl Ddewi Cylch Cinio Abertawe oedd y Cyn Brif Weinidog Carwyn Jones, sydd bellach yn Athro'r Gyfraith ym Mhrifysgol Aberystwyth. Siaradodd yn ddiddorol dros ben am gefndir ei deulu ym Mrynaman. Yn y llun gydag ef mae Harri Clarke, a oedd yn adnabod llawer o'r bobl y soniodd amdanynt yn ei sgwrs.



Wilia

Y mis yma yng ngofal
Steve Morris

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr.
Daliwch i anfon, ar gyfer rhifyn mis Mai
erbyn 20 Mai
wilia@hotmail.co.uk
Mis Mehefin yng ngofal
Mark Stonelake

Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru



GOLYGYDDION:
ELIN MEEK, STEVE MORRIS, MARK
STONELAKE, HEINI GRUFFUDD

TRYSORYDD:
DYFRIG HARRIS

MARW JOAN WILLIAMS

Bu farw Joan Williams, a oedd yn ffigur adnabyddus mewn sawl cylch Cymraeg yn Abertawe, gan



gynnwys capel y Trinity.

Hanai o Gwmllynfell, a dod yn brif ferch Ysgol Ramadeg Ys-talyfera. Byddai'n cystadlu'n gyson fel cantores mewn eisteddfodau bach a chenedlaethol. Arweiniodd Gantorion y Wawr yn Abertawe, a

hyfforddi'n athrawes gerdd.

Bu am gyfnodau'n dysgu mewn gwahanol fannau yn Lloegr, gan gynnwys Caerlyr a Reigate, Surrey. Dychwelodd i Abertawe yn 1966 a dysgu mewn ysgolion yn Ystumllwynarth a St Thomas. Roedd yn aelod o Gôr y Tabernacl, ond hoffai ddawnsio hefyd, a bu'n aelod o Ddawnswyr Treforys.

Gedy ei gwr Howard, ei phlant Alun, ac Annwen, a'i wyres Elen. Bu farw ei mab Gareth yn drist iawn. Bydd colled mewn sawl man yn Abertawe ar ei hôl.

GWAITH CELF YN NHY TAWE

Am y tro cynta ers rhai blynyddoedd bu arddangosfa gelf yn Neuadd Ty Tawe. Gwaith Karolina Jones oedd i'w weld, sef ei phrosiect Polkymraes. Cafodd yr arist ei magu mewn teulu milwrol yng Ngwlad Pwyl, ond mae ei gwaith yn fynegiant o'i phrotest yn erbyn sefyllfa wleidyddol Gwlad Pwyl.



Mae hi'n cymysgu patrymau gwisgoedd milwrol â phatrymau Slafig-Geltaidd. Braff gweld yr arddangosfa amlieithog ac aml-ddiwyll-iannol hon.

AwDURA mudlad meithrin

Dyma gynllun newydd i annog lleisiau Cymraeg o blith cymunedau Du, Asiaidd a Lloegrifol Eithrig i 'sgwennu storiion i blant bach.

Ry'n ni'n chwilio am bobl i ymuno elfo cynllun 'AwDura' fydd yn darparu cefnogaeth gan ddau enw mawr o hyd 'sgwennu a chyhoeddi Cymru - Jessica Dunrod a Manon Steffan Ros. Ein nod yw annog creu storiion i blant bach cymuned Mudlad Meithrin a thu hwnt. Y gobath fydd cyhoeddi storiion gan leisiau newydd.

Fydd y cynllun yn cynrydd 10 diwrnod yn ystod cyfnod o 4-6 mis eile. Bydd yr unan ddyddiau'n cael eu cytuno elfo'r ymgyswyr lwyddiannus. Darper cyflog am y 10 diwrnod.

Mae modd i bobl sy'n dysgu Cymraeg wreud cais. Mae'r manylion i gyd yma: meithrin.cymru/jobs/awdura

I wneud cais, gyrra e-bost 100 gair neu fideo munud o hyd gyda pam y dyfet gael dy ddeu i: gwerllian@meithrin.cymru erbyn Mehefin 10 2022.

AwDURA

This is a new project to encourage voices from Black, Asian and Minority Ethnic communities to write stories in Welsh for young children.

We are looking for people to join 'AwDura' - a project that will provide support from two big names from the world of writing and publishing in Wales - Jessica Dunrod and Manon Steffan Ros. Our aim is to encourage the creation of stories for young children in Attuned Meithrin's community and beyond. The hope is that we will publish the stories of these new voices.

The scheme will involve 10 days' work during a period of 4-6 months this year. The exact days will be agreed with the successful candidates. A salary is provided for the 10 days.

People learning Welsh can apply. All details are here: meithrin.cymru/jobs/awdura/?lang=en

To apply, send a 100-word e-mail or 1-minute film to gwerllian@meithrin.cymru by June 10, 2022, explaining why you should be chosen!

Cynllun Siarad Babi

Ry'n ni, ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, eisiau casglu'r eirfa r'ch chi'n ei ddefnyddio (neu wedi eu defnyddio) gyda babanod eich teulu chi. Ry'n ni am gasglu'r geiriau er mwyn eu rhannu gyda siaradwyr Cymraeg newydd er mwyn eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn y ffordd fwyaf naturiol posib gyda'u plant a'r cychwyn cyntaf un.

www.meithrin.cymru/siaradbabi

Pa eiriau 'dych chi'n ddefnyddio writh siarad babi? 'Dyn ni eisiau eu clywed i gyd!

www.meithrin.cymru/siaradbabi

dyngucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru


Pencampwr Paffio Cymru

Llongyfarchiadau i Gavin Alexander sydd wedi ennill pencampwriaeth paffio Cymru ar y 23ain o Ebrill. Fe fydd yn cynrychioli Cymru ym mhen-campwriaeth Prydain yn Llundain ym mis Mehefin.



Rownd Terfynol Cwpan Cymru

Joe Rees yng ngharfan Cymru o dan 18
Yn ystod gwyliau'r Pasg llwyddodd Joe Rees (Bl.13) i ennill ei gap cyntaf i Gymru yn erbyn Lloegr.



ADRAN ABERTAWE

I blant blynyddoedd 3—6. Cyfle i gymdeithasu, gemau hwyl a gweithgareddau diddorol.
Bob prynhawn Mercher yn Nhy Tawe, 4.30—5.30.
Gallwch gofrestru yma: <https://lght.ly/14bidje>

GIG SIARADWYR NEWYDD YN NHY TAWE

Al Lewis + Eädyth x Izzy Rabey

Trefnir ar y gyda rhwng Menter Iaith Abertawe a Dysgu Cymraeg

Tocynnau: www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe

Mwynhau'r Gymroeg

AL LEWIS

EÄDYTH X IZZY RABEY

TŶ TAWE
27/05/2022
19:00

GIG FYW I BAWB
SYN MWYNHAU
CERDDORIAETH GYMRAEG.

PRIS: £5
AM DDIM I DDYSGWYR CYMRAEG
AC AELOGAU CYNLLUN SIARAD

TICKETSOURCE.CO.UK/MENTER-IAITH-ABERTAWE

MENTRAU IAITH
Menter Iaith Abertawe

CLYBIAU PONTIO

Mae Menter Iaith Abertawe'n trefnu clybiau pontio yn ysgolion Gwyr a Bryn Tawe.

Llun: Anys o'r Fenter yn mwynhau'r gweithgareddau gyda phlant yn Ysgol Gwyr



CYFARFOD DYFODOL WILIA

CYFARFOD I
DRAFOD
DYFODOL WILIA

Cynhaliwyd cyfarfod ddiwedd Ebrill i drafod dyfodol Wilia. Daeth yn glir bod angen manteisio ar bosibiliadau'r we, a allai ehangu cylch darllenwyr yn sylweddol. Mae croeso i ddarllenwyr Wilia anfon sylwadau at wilia@hotmail.co.uk. Go-baith Wilia yw rhoi cychwyn erbyn mis Medi eleni ar raglen gyhoeddi newydd. Dyma gofnodion y cyfarfod.

1 Cyflwyniad

Darluniwyd sefyllfa Wilia.

Ariannol: Mae £6,700 yn y banc a'r sefyllfa ariannol yn iach, trwy grant y Llywodraeth (tua £1,700 y flwyddyn), arbedion a wnaed trwy beidio argraffu am rai misoedd yn ystod cyfnod Covid, ymdrechion codi arian, cyfraniadau, rhai hysbysebion a pheth gwerthiant. Mae Dyfrig, y trysorydd, wedi gweithredu ers 1977.

Gweithwyr: Mae nifer dda o gyfranwyr, ond bu'r cyfrifoldeb o lunio'r papur ar 4 o olygyddion. Bu Heini'n glwm wrth Wilia ers 1977, a'r tri arall, Elin, Marc a Steve, am ryw 25 mlynedd neu ragor. Mae dymuniad i drosglwyddo'r awenau.

Cyhoeddi: Pan gychwynnodd Wilia, roedd gwerthiant brwd mewn ysgolion, i deuluoedd unigol. Bellach mae Gwyr a Bryn Tawe yn derbyn 50 copi y mis, Bryn-y-môr, Lôn-las a Login Fach 30, Coleg Gwyr 15, Cymdeithas Gymraeg Treforys 45, Bethel Sgeti 15, Siop Tŷ Tawe 30, Swyddfa'r Bost Sgeti 10. Nid yw Cymdeithas Llandeiloferwallt wedi ailafael ers cyfnod Covid. Ers rhai blynyddoedd bu pdf Wilia ar wefan y Fenter Iaith, ac ers cyfnod Covid, danfonir pdf at ryw 100 o gyfranwyr. Nid yw Wilia wedi manteisio ar y cyfryngau digidol yn fyw.

Yr angen: Mynegwyd bod angen parhau Wilia ar ryw ffurf neu'i gilydd, i glymu siaradwyr Cymraeg, siaradwyr newydd a chymdeithasau Cymraeg Abertawe.

2 Trafodaeth:

Mynegwyd sawl barn:

Byddai'n ddymunol cael copi argraffedig a/neu pdf o Wilia.

Byddai hyn yn golygu bod angen golygyddion i roi'r papur at ei gilydd fel ar hyn o bryd. Meddid bod hyn yn ddiwrnod o waith y mis, yn



fras.

Gallai Wilia fanteisio ar wefan Bro360, sy'n perthyn i Golwg360, ac yn gallu cynnig hafan i bapurau bro. (Mae rhai rhifynnau o Wilia ar y wefan eisoes.) Os na chaiff pdf ei baratoi, byddai modd i gyfranwyr anfon storiâu. Gallai hefyd gynnwys sain a fideo.

Gallai Wilia fanteisio ar Facebook, instagram, Twitter.

Gellid paratoi tudalennau trwy dempledi Canva.

Mae dyddiau papurau newydd heibio.

Sut mae cadw cofnod o fywyd Cymraeg Abertawe ac o ddatblygiadau, e.e. addysg

CYLCH
CLEBRAN

Ar y we—bob bore Mercher—caiff Cylch Clebran ei gynnal gan Fenter Iaith Abertawe. Mae dysgwyr a siaradwyr Cymraeg o Abertawe a mannau eraill yn dod i siarad â'i gilydd.

Janet y siop sydd wrthi'n cynnal y sgysrsiau difyr hyn.

Gymraeg? Awgrymwyd bod y Llyf Gen yn cadw cofnod o wefannau digidol. O symud at Bro360, sut byddai cadw brand Wilia/ Abertawe yn bosib.

Marchnata: gellid cynhyrchu Wilia argraffedig bob haner blwyddyn, a thafleini i hyrwyddo Wilia ar Bro360, a gallai'r Fenter a Wilia wneud yr un modd.

3 Penderfyniad:

Bydd Mirain yn cychwyn instagram,

Facebook a Twitter i Wilia, gan gychwyn y broses ddigideiddo. Gofynnwyd i Alun drefnu bod Owain Schiavone, Gwern ab Arwel, neu Lowri yn dod aton ni ryw nos Fercher yn fuan i drafod y posibiliadau.

**SIOP TY TAWE:
AR AGOR
Dydd Mawrth i Ddydd
Gwener 10-5,
Dydd Sadwrn 10—2**

- **Llyfrau**
- **Cardiau**
- **Anrhegion**
- **CDau**
- **Popeth am Gymru**

